| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **10 CHWEFROR 2022** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 IONAWR 2022** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2021 hyd 30 Ionawr 2022.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 30 Ionawr 2022:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 7 |
| Archwiliadau Grant | 1 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Ionawr 2022, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Datganiadau Cyflogaeth | Corfforaethol | - | Cyfyngedig | Atodiad 1 |
| Dyletswyddau Economaidd Gymdeithasol | Corfforaethol | _ | Dim Categori | Atodiad 2 |
| Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion | Addysg | Adnoddau | Uchel | Atodiad 3 |
| Iechyd a Diogelwch Meysydd Chwarae | Addysg | Adnoddau | Cyfyngedig | Atodiad 4 |
| Amgueddfa Lloyd George | Economi a Chymuned | Archifau. Amgueddfeydd a Chelfyddydau | Uchel | Atodiad 5 |
| Grant Dewisol Cyfyngiadau Clo | Economi a Chymuned | Cefnogi Busnes | Uchel | Atodiad 6 |
| Trefniadau Rheoli Prosiectau | YGC | Ar draws yr Adran | Digonol | Atodiad 7 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 31 Ionawr 2022:

- Cynlluniau Parhad Busnes a Gwersi a Ddysgwyd *(Corfforaethol)*
- Brexit *(Corfforaethol)*
- Côd Rheoli Ariannol *(Corfforaethol)*
- Trefn Gwynion *(Corfforaethol)*
- Dynodiadau Iaith *(Corfforaethol)*
- Defnydd o Gardiau Pryniant *(Corfforaethol)*
- Cronfeydd Answyddogol Ysgolion *(Addysg)*
- Hylendid Bwyd *(Amgylchedd)*
- Grantiau Cefn Gwlad *(Amgylchedd)*
- Trefniadau Adfer Trychineb *(Cyllid)*
- Rheoli Prosiect – Uwchraddio E-financials *(Cyllid)*
- Newid Data Sefydlog *(Cyllid)*
- Taliadau Bonws i Weithwyr Gofal *(Cyllid)*
- Storiel *(Economi a Chymuned)*
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Trefniadau Asesu Risg a Rhaglen Hyfforddiant *(Plant a Theuluoedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2021 hyd at 30 Ionawr 2022, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

**DATGANIADAU CYFLOGAETH**

## 1. Cefndir

1.1 Yn unol â Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996, mae rhaid cyflwyno datganiadau cyflogaeth i weithwyr (gan gynnwys gweithwyr asiantaeth, gweithwyr achlysurol a gweithwyr cytundeb sero oriau) ar neu cyn eu diwrnod gwaith cyntaf, sydd yn disodli'r ddeddfwriaeth flaenorol a ganiatawyd i'r datganiad cael ei gyflwyno o fewn deufis o'r dyddiad cychwyn. Yn dilyn newidiadau i'r Ddeddf ar Ebrill 6ed 2020, mae'n ofynnol i ychwanegu cymal mewn perthynas ag ymgymryd â hyfforddiant angenrheidiol megis diogelu yn natganiadau cyflogaeth pob aelod staff.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod cymal ynglŷn a hyfforddiant angenrheidiol megis diogelu yn cael ei gynnwys yn natganiadau cyflogaeth holl staff y Cyngor, beth bynnag yw eu swyddogaethau er mwyn atgyfnerthu'r neges bod y cyfrifoldeb yn gyffredin i bawb. Er mwyn cyflawni hyn roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o unigolion sydd wedi derbyn swyddi newydd a gwirio eu datganiadau cyflogaeth er mwyn sicrhau bod y cymal penodol wedi ei gynnwys. Roedd y sampl yn cynnwys trawsdoriad o swyddogion ar draws adrannau'r Cyngor a benodwyd ers Ionawr 2021.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| CHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 1 |
| CANOLIG | 0 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Ers Ionawr 2021 mae oddeutu 500 o aelodau staff newydd wedi ymuno â'r Cyngor, gyda dros 1,000 o staff presennol wedi ennill swyddi newydd oddi fewn y Cyngor. Detholwyd sampl o 50 staff newydd a 100 o staff presennol (10%), gan wirio fod cymal parthed ymgymryd â hyfforddiant angenrheidiol wedi ei gynnwys yn eu datganiadau cyflogaeth, a'u bod wedi cwblhau'r modiwlau hyfforddiant e-ddysgu perthnasol.

5.2 Ni welwyd fod cymal parthed ymgymryd â hyfforddiant angenrheidiol wedi ei gynnwys yn y datganiadau cyflogaeth. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol fod y mater yn derbyn sylw, gyda gwahanol opsiynau yn cael eu hystyried. Oherwydd maint y Cyngor fel cyflogwr, mae penderfynu pa hyfforddiant sydd yn fandadol i bob rôl, a sut bydd y rhestr honno yn cael ei ddiweddaru dros amser yn waith fydd yn cymryd cryn dipyn o amser. Cadarnhaodd fod cymal penodol wedi ei deilwra ar gyfer gofynion hyfforddiant gwahanol swyddi, ond fod angen ystyried gofynion hyfforddi mwy corfforaethol sydd yn berthnasol i bawb.

5.3 O'r sampl (sef 150 aelodau staff) gwiriwyd nifer y swyddogion sydd wedi ymgymryd a hyfforddiant er mwyn canfod os yw niferoedd mynychu hyfforddiant yn uchel nawr, er nad oes cymal yn eu datganiadau cyflogaeth. Gwelwyd mai ond 3% o'r sampl yn unig sydd wedi cwblhau'r modiwlau hyfforddiant canlynol: Diogelu Oedolion, Amddiffyn a Diogelu Plant, Cam-drin Domestig, Atal, a Chaethiwes Fodern, gyda 18 aelod staff (12%) wedi cwblhau modiwl Diogelu Data. Mae 32% o aelodau staff wedi cwblhau rhwng 1 a 4 modiwl, gyda 65% o aelodau staff heb gwblhau unrhyw fodiwlau. Mae hyn yn amlygu'r lefel o risg mae'r Cyngor yn ei wynebu.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Parhau i weithredu gyda'r angen i gynnwys cymal parthed ac ymgymryd â hyfforddiant angenrheidiol yn natganiadau cyflogaeth staff**

Atodiad 2

## DYLETSWYDDAU ECONOMAIDD GYMDEITHASOL 2021

### 1. Cefndir

1.1 Nôd y ddyletswydd a ddaeth i rym ar y 1af o Ebrill 2021 yw annog gwell prosesau o wneud penderfyniadau strategol, sy'n rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod i ystyried anghydraddoldeb sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd gwirio pa gamau sydd wedi eu rhoi mewn lle ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd o ddydd i ddydd. Gwneir hyn drwy wirio pa ddata economaidd-gymdeithasol sydd wedi ei gasglu ar gyfer llywio penderfyniadau, yr hyfforddiant sydd mewn lle i swyddogion a sut asesiadau sydd wedi eu gwneud er mwyn ystyried anghydraddoldeb.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIM YN BERTHNASOL** | **Ystyrir ei bod yn gynamserol i ddatgan lefel sicrwydd gan fod trefniadau yn parhau ar y gweill ac mai ychydig o benderfyniadau ar lefel strategol oedd wedi eu cyflwyno i'w hystyried ar adeg yr archwiliad.** |

### 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gofyn i'r Cyngor ystyried effaith penderfyniadau strategol ar amryw o nodweddion cydraddoldeb, megis hil, rhyw, rhywioldeb ac anabledd. Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, â fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru â ddaeth i rym ar y 1af o Ebrill 2021. Mae'r canllawiau newydd yn annog y Cyngor i ddefnyddio dulliau sydd eisoes yn bodoli er mwyn asesu effaith polisïau, er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth llawn i amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn ogystal a'r nodweddion cydraddoldeb ystyrir yn bresennol.

4.2 Er mwyn cynorthwyo swyddogion i ystyried y nodweddion cydraddoldeb wrth lunio polisiau, creuwyd templed ffurflen asesiad effaith newydd, sy'n adeiladu ar y templed sydd eisoes wedi bod mewn lle ers rhai blynyddoedd, ar y cyd gydag awdurdodau lleol y gogledd, Bwrdd Iechyd PBC, APCE, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwlans, sef aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru. Yn dilyn adborth cadarnhaol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae'r rhanbarth yn y broses o gytuno ar y ffurflen asesiad effaith terfynol. Yn y cyfamser, yng Ngwynedd, roedd ffurflen asesiad effaith interim mewn lle. Bydd yr asesiad terfynol yng Ngwynedd yn ddogfen electroneg, a bydd digon o gymorth integredig ar gael i'r defnyddiwr wrth gwblhau yr adrannau er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb.

4.3 Gwiriwyd adroddiadau a'r dogfennau atodol a gyflwynwyd i'r Cabinet ers i'r ddyletswydd ddod i rym ar y 1[af] o Ebrill 2021. Gwelwyd bod rhai o'r adroddiadau â gyflwynwyd wedi defnyddio hen dempled asesiad effaith yn hytrach na'r fersiwn interim sydd wedi ei addasu i gynnwys yr elfen economaidd-gymdeithasol, ac felly nid oedd modd sicrhau bod yr elfen yma wedi derbyn y sylw priodol. Caiff yr adroddiadau eu gwirio gan y Swyddog Monitro cyn eu cyflwyno i'r Cabinet, ac mae'n debyg bod nifer o asesiadau effaith wedi eu cwblhau funud olaf ar ôl y gwiriad yn hytrach nag wrth lunio y polisïau arfaethedig, sydd yn awgrymu bod ymwybyddiaeth annigonol ymysg rheolwyr, a diffyg gwerthfawrogiad am y rhesymau tu ôl cynnal yr asesiadau yn y lle cyntaf. Er rhan amlaf nid oes angen asesiad effaith ar 'Benderfyniadau Aelodau' gan eu bod yn faterion penodol iawn, mae pryder nad yw hyn yn cael ystyriaeth ar bob achlysur.

4.4 Mae'r diffiniad o'r hyn sydd yn benderfyniad strategol yn heriol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, "*penderfyniadau strategol yw'r rheini sy'n effeithio ar y ffordd y mae'r corff cyhoeddus perthnasol yn cyflawni'i bwrpas statudol (ei swyddogaethau ar sail y set o bwerau a dyletswyddau y mae'n eu defnyddio i wneud ei waith) dros gyfnod arwyddocaol o amser, heb gynnwys y penderfyniadau 'pob dydd' cyffredin*." Mae'n ddibynnol ar y cyd-destun os yw'r penderfyniadau yn strategol neu beidio, ac os oes amheuaeth mae'r Swyddog Monitro o blaid ymgorffori'r ddyletswydd.

4.5 Trafodwyd gyda'r Swyddog Monitro yr adroddiadau cyflwynwyd i'r Cabinet ers i'r ddyletswydd ddod i rym. Roedd o'r farn nad oedd nifer o'r adroddiadau yn wirioneddol strategol, ac felly cytunwyd nad oedd digon o amser wedi mynd heibio er mwyn gallu ffurfio barn ar y cydymffurfiaeth â'r ddeddf. Fodd bynnag, cytunwyd i ail-ymweld â'r maes yn 2022/23, gan gynnwys yr ymdrechion i godi'r ymwybyddiaeth a'r dealltwriaeth tu ôl cynnal yr asesiadau.

4.6 Dylai asesiadau effaith gael eu cefnogi gan ddata er mwyn cyfiawnhau y datganiadau. Gall y data ddod o amryw o ffynhonellau, a bydd yn debygol o fod yn ddata gwahanol ar gyfer pob asesiad. Nid yw ystadegau ar ben eu hunain yn debygol o fod yn ddigonol ac felly mae derbyn safbwynt trigolion hefyd yn bwysig er mwyn asesu effaith yn briodol, ond mae COVID wedi atal nifer o weithgareddau ymgysylltu oedd wedi'i cynllunio er mwyn dod i ddeall profiad bywyd trigolion gwahanol, ardaloedd a mudiadau perthnasol.

4.7 Mae hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion ac i Aelodau, a creuwyd teilsen penodol ar gydraddoldeb ar fewnrwyd y Cyngor sy'n cynnwys manylion am y ddyletswydd newydd. Fodd bynnag, yn sgil y diffyg ymwybyddiaeth ymddangosiadol, mae bwriad i godi ymwybyddiaeth ymysg Aelodau a rheolwyr ymhellach i gyd-fynd a chyflwyno'r drefn asesu effaith newydd, gyda cynlluniau mewn lle i addasu'r modiwl e-ddysgu a chreu cwrs ar y drefn asesu effaith.

**5. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Codi ymwybyddiaeth ymysg Aelodau a rheolwyr o'r ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb newydd, yn ogystal â darparu hyfforddiant penodol er mwyn annog ystyriaeth llawn i anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol wrth ystyried penderfyniadau strategol.**
- **Defnyddio offeryn tracio cynnydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol er mwyn cynorthwyo y Cyngor i fodloni gofynion y ddyletswydd, ac i fynd y tu hwnt i'r gofynion i sicrhau newid ystyrlon yn y ffordd y gwneir penderfyniadau pwysig.**

Atodiad 3

## GRANT RHANBARTHOL CONSORTIA GWELLA YSGOLION

### 1. Cefndir

1.1 Diben y grant yw gwella deilliannau addysgol ar gyfer pob dysgwr a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau dysgwyr. Egwyddor craidd y grant yw bod y mwyafrif helaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darpariaeth rheng flaen gydag amodau a thelerau grant 2020-21 yn nodi'r disgwyliad bod isafswm o 80% o gyfanswm y Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion (GRCGY) yn cael ei ddatganoli'n uniongyrchol i'r ysgolion. Cyngor Gwynedd yw Awdurdod arweiniol GRCGY a GwE sydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgolion yn cyflawni gofynion y grant ac yn cefnogi'r ysgolion i'r perwyl hynny.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu GRCGY 2020-21, er mwyn lliniaru risgiau cysylltiedig ag amodau a thelerau'r grant, yn ogystal â chadarnhau bod sail i'r ffigyrau a gyflwynir ar ddatganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â'r grant, gan ddilyn trywydd y ffigyrau i'r cyfriflyfr i gadarnhau eu cywirdeb a'u priodoldeb.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

### 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb datganiadau gwariant Cyngor Gwynedd a GwE mewn perthynas â Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion. Dilynwyd sampl o'r ffigyrau yn ôl i gyfriflyfr ariannol y Cyngor, ac fe'u cafwyd yn gywir, yn rhesymol ac yn cyd-fynd ag amcanion y grant. Gwelwyd bod y canran priodol o'r cyllid gros wedi ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgolion a bod y canran priodol o'r arian grant wedi ei ddargadw ar gyfer pwrpas gweinyddiaeth yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

4.2 Yn ogystal â chyflwyno Cynllun Datblygu Ysgol, mae bellach yn ofynnol i'r ysgolion gyflwyno 'Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau' fel atodiad i'w cynlluniau. Mae'r dangosfyrddau yn galluogi i'r ysgolion grynhoi sut bydd yr arian grant yn cael ei ddyrannu yn ôl yr amcan, disgrifiad o'r gweithgaredd, y math o wariant ac yr amserlen.

Atodiad 4

# IECHYD A DIOGELWCH MEYSYDD CHWARAE

## 1. Cefndir

1.1 Wrth archwilio trefniadau cynnal a chadw meysydd chwarae sydd dan ofalaeth yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn 2019-20, adnabuwyd yr angen i archwilio trefniadau cyfatebol yr Adran Addysg ar gyfer y meysydd ac offer chware sydd ar dir ysgolion.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau cynnal a chadw offer a meysydd chwarae ar dir ysgolion yn briodol, er mwyn sicrhau diogelwch y defnyddwyr. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r drefn o archwilio meysydd ac offer chwarae ysgolion, sydd ddim dan ofalaeth yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, gan sicrhau fod trefn ddigonol o gaffael offer priodol, adnabod diffygion a risgiau, a chynnal gwelliannau.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 4 |
| **CANOLIG** | 0 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Er mwyn lliniaru'r risg i ddefnyddiwr rhag brifo ar offer chwarae, mae'n bwysig bod trefn mewn lle o wirio'r offer yn rheolaidd, gan adnabod ac atgyweirio diffygion cyn gynted â phosib. Er nad oes modd dileu y risg yn gyfan gwbl, disgwylir bod trefniadau rhesymol mewn lle i'w liniaru gymaint â phosib. I'r perwyl yma, mae'r Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Lles a'r Uned Yswiriant wedi paratoi rhestrau gwirio i'r ysgolion.

Detholwyd sampl o 7 ysgol er mwyn darganfod pa drefniadau sydd mewn lle, a gwelwyd mai'r risg mwyaf yw'r methiant i allu profi bod gwiriadau digonol mewn lle, sy'n hanfodol petai achos yn erbyn ysgol yn dilyn damwain. Ni dderbyniwyd ymateb gan bob ysgol, sy'n atgyfnerthu y pwynt yma.

5.2 Mae rhestr wirio cyffredinol i reolwyr safle wedi ei rannu gyda'r ysgolion er mwyn iddynt gynnal archwiliad pob hanner tymor. Gwelwyd nad oes cyfeiriad uniongyrchol tuag at gyfarpar chwarae yn y rhestr wirio sy'n creu risg nad oes gwiriadau yn cael eu cynnal arnynt. Mae'r diffyg cyfeiriad uniongyrchol ato yn y rhestr wirio hefyd yn amharu ar allu y Cyngor i brofi bod trefniadau cynnal a chadw priodol mewn lle petai cwyn yn cael ei gyflwyno yn erbyn ysgol yn dilyn anaf. Cytunwyd i addasu'r ffurflen er mwyn cyfeirio at offer chwarae, ac i atgoffa ysgolion o'r angen i'w cwblhau a'u cadw am y cyfnod dargadw priodol.

5.3 O ran y gwiriadau anffurfiol dyddiol neu wythnosol, gwelwyd o'r ymatebion mai gofalwyr sy'n cynnal yr archwiliadau ond nad oes cofnodion o'r archwiliadau yma yn cael eu cadw.

5.4 Mae Uned Yswiriant y Cyngor yn yswirio'r elfen atebolrwydd yn unig - nid yr offer ei hun. Yn ogystal, maent yn trefnu i beiriannydd o yswirwyr y Cyngor, 'Zurich Municipal', i arolygu'r holl feysydd chwarae yn flynyddol, ac yn darparu adroddiad o'u darganfyddiadau gan gynnwys argymhellion i gyfarch unrhyw ddiffygion. Fodd bynnag, mae'r Uned Yswiriant yn ddibynnol ar yr ysgolion i roi gwybod iddynt am fodolaeth unrhyw offer, ac wrth gymharu eu cofnodion gyda gwybodaeth allanol (Google Maps, gwefan yr ysgol ayb), gwelwyd nad yw'r Uned Yswiriant wedi cael gwybod am offer chwarae pob ysgol, a hynny o bosib oherwydd nad yw'r offer wedi ei ariannu o gyllideb swyddogol yr ysgolion. Golyga hyn na fydd adolygiad o gyflwr yr offer yn cael ei wneud gan beiriannydd profiadol a chymwysedig 'Zurich Municipal', ac yn hytrach bydd rhaid dibynnu ar wiriadau y Pennaeth fel Rheolwr Safle, neu gwmni allanol arall ar gais y Pennaeth.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cynnwys cyfeiriad tuag at offer a meysydd chwarae yn y rhestr wirio hanner tymor, a'i dosbarthu i'r ysgolion.**
- **Atgoffa'r ysgolion yn gyfnodol i gysylltu â'r Uned Yswiriant os ydynt yn prynu offer chwarae allanol er mwyn trefnu archwiliad blynyddol gan 'Zurich Municipal', oni bai eu bod wedi trefnu archwiliadau gan gwmnïau amgen cymwys.**
- **Paratoi pecyn i'r Penaethiaid er mwyn eu helpu i gyfarch eu cyfrifoldebau ynglŷn ag offer allanol, megis cadw cofnodion archwiliadau, asesiadau risg, hunanarchwiliadau Llywodraethwyr, cyfnodau dargadw ayb.**
- **Cynnal a chadw yr offer chwarae yn unol â rhestrau gwirio a chanllawiau y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Lles a'r Uned Yswiriant, gan gadw cofnodion yr archwiliadau am y cyfnod dargadw cywir.**

Atodiad 5

## AMGUEDDFA LLOYD GEORGE

**1. Cefndir**

1.1 Mae Amgueddfa Lloyd George a chartref ei blentyndod, Highgate, Llanystumdwy, yn olrhain bywyd cyn Brîf Weinidog Prydain. Gweinyddir yr amgueddfa, sy'n elusen gofrestredig, gan Gyngor Gwynedd gyda chymorth Cyfeillion yr Amgueddfa sy'n cefnogi a chynorthwyo datblygiad yr Amgueddfa a'i defnydd addysgiadol. Oherwydd bod yr elusen wedi uchafu trothwy incwm o £25,000, rhaid cyflwyno cyfrifon ac adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr i'r Comisiwn Elusennau am 2020-21, gan gynnwys adroddiad archwiliwr annibynnol o'r cyfrifon.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cwblhau adroddiad archwiliwr annibynnol o gyfrifon yr Amgueddfa am y flwyddyn ariannol 2020-21, gan roi sicrwydd bod yr hyn a gyflwynir i'r Comisiwn Elusennau yn gywir. Gwnaethpwyd hyn drwy eu cysoni gyda chyfriflyfr y Cyngor, gan sicrhau bod yr holl drafodion yn berthnasol i'r Amgueddfa.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i roi'r gorau i redeg Amgueddfa Lloyd George o 1 Ebrill 2017, fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r bwlch ariannol blynyddol o £27,000 yn cael ei gyfarch gan Lywodraeth y DU am 3 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2020. Yng nghyfarfod o'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2019, penderfynwyd yn ei rôl fel Awdurdod Lleol i gyfrannu £27,000 ar gyfer 2020-21 o Gronfa Drawsffurfio'r Cyngor er mwyn caniatáu mwy o amser i'r Ymddiriedolwyr, sef y Cabinet mewn rôl ar wahân, ystyried modelau gorau ar gyfer y dyfodol. Wrth gwrs, cafodd COVID-19 effaith sylweddol na ragwelwyd ar yr amgueddfa, ac ar y 12/01/21 gofynnwyd i Gabinet Cyngor Gwynedd i wneud cyfraniad un tro am gostau blwyddyn yr amgueddfa am 2021-22 er mwyn prynu rhagor o amser. Trafodwyd sefyllfa ac opsiynau ar gyfer rheolaeth yr elusen yn nghyfarfod y Cabinet – yn eistedd fel Ymddiriedolwyr yr elusen – ar 14/09/21.

4.2 Darganfuwyd fod y cyfrifon ar gyfer 2020-21 yn briodol ac felly cwblhawyd adroddiad yr archwiliwr annibynnol er mwyn datgan hynny.

Atodiad 6

**GRANT DEWISOL CYFYNGIADAU SYMUD**

**1. Cefndir**

1.1 Agorodd Llywodraeth Cymru gronfa (Grant Dewisol) i gefnogi busnesau a hunan fasnachwyr sydd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cyfyngiadau i reoli lledaeniad Covid-19. Diben y grant oedd rhoi cymorth llif arian i fusnesau a'u helpu i oroesi canlyniadau economaidd y cyfyngiadau estynedig. Roedd y grant ar gael i fusnesau ar 3 achlysur wedi'r cyfnod clo, y cyntaf: Hydref 2020, Rhagfyr 2020/Ionawr 2021 a Chwefror/Mawrth 2021 ar amser yr archwiliad.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i weinyddu grantiau cymorth busnes Llywodraeth Cymru yn briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r wybodaeth oedd ar gael i'r cyhoedd yn ogystal â'r trefniadau prosesu, rheoli a gweinyddu'r grant.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **UCHEL** | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

**4. Prif Ddarganfyddiadau**

4.1 Mae'r grant dewisol wedi bod ar gael am 3 cyfnod yn ystod y cyfnod clo. Mae telerau'r grant wedi bod yn debyg yn ystod pob cyfnod gyda mymryn o wahaniaethau. Oherwydd hyn, mae 3 safle gwybodaeth gwahanol wedi bodoli yn ystod oes y grant. Gwelwyd bod rhain wedi bod ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor. Roeddynt yn rhwydd i'w darganfod ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol gan Lywodraeth Cymru. Roedd hefyd ddolen at y ffurflenni cais pan oedd y grant yn fyw.

4.2 Yn ystod y cyfnod grant cyntaf, defnyddiwyd system *Sharepoint* er mwyn cadw data'r ceisiadau a'u gwirio. Esblygodd y gwasanaeth i ddefnyddio system FFOS erbyn yr ail a thrydydd gyfres o grantiau oherwydd credir bod achosion yn cael eu prosesu'n fwy effeithiol ac effeithlon.

4.3 Gwiriwyd sampl o 42 achos allan o 1,685 oedd wedi cael eu prosesu ar amser yr archwiliad (30 talwyd a 12 gwrthodwyd). 16.05 diwrnod oedd yr amser cyfartalog gymerwyd o gais i daliad a 8.21 diwrnod ar gyfer ceisiadau a wrthodwyd. Mae'r cyfnodau prosesu yma yn llawer byrrach na'r nod o 30 diwrnod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

4.4 Roedd yr wybodaeth a gyflwynwyd i'r Cyngor yn y ceisiadau yn cael ei wirio yn erbyn gofynion Llywodraeth Cymru. Hynny yw bod y busnes yn masnachu cyn 1 Hydref 2020, bod y busnes yn gweithredu yng Nghymru, bod y busnes wedi gorfod cau neu wedi dioddef gostyngiad trosiant oherwydd Covid a.y.b. Mynegodd swyddogion y gwasanaeth bod cyfarwyddyd gan y Llywodraeth i dderbyn yr wybodaeth gyflwynir mewn ceisiadau fel ei fod yn hunan-dyst. Serch hyn, roedd swyddogion yn herio a'n gofyn am dystiolaeth ychwanegol gan fusnesau ar bob achlysur petai unrhyw ran o'r cais yn aneglur neu bod amheuaeth am resymeg yr ymgeisydd i fod angen cymorth. Roedd y gwasanaeth hefyd yn gofyn am ddatganiad banc gan yr ymgeiswyr i gadarnhau eu manylion banc a'u cyfeiriad. Allan o'r 30 o'r sampl a dalwyd gwelwyd bod datganiadau banc wedi'u harbed ar y system fel tystiolaeth ychwanegol ar gyfer pob ymgeisydd llwyddiannus. Roedd yr archwiliwr yn cytuno gyda'r penderfyniadau wnaethpwyd ar gyfer y sampl o 42 o geisiadau a wiriwyd (talu a gwrthod) yn dilyn gwiriadau yn erbyn gofynion Llywodraeth Cymru.

Atodiad 7

**TREFNIADAU RHEOLI PROSIECT**

**1. Cefndir**

1.1 Mae YGC yn rheoli ystod eang o brosiectau dylunio ac adeiladu. Mae trefniadau rheoli'r prosiectau yn amrywio, ac yn ddibynnol ar eu gwerth, y ffynhonnell â ariennir y prosiect a'r cymwysterau a phrofiad angenrheidiol er mwyn eu rheoli. Golyga hyn fod nifer o aelodau staff YGC yn ymgymryd â rôl rheolwr prosiect gan arwain at amrywiaeth mewn trefniadau a'r dulliau â ddefnyddir i reoli'r gwahanol prosiectau.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau rheoli prosiectau YGC yn briodol gyda chysondeb yn y prosesau a ddilynir gan y rheolwyr prosiect. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol a gwirio trefniadau rheoli sampl o brosiectau ac adolygu'r systemau a ddefnyddir er mwyn cofnodi a ffeilio'r wybodaeth.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| CHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Mae YGC yn y broses o fabwysiadu system K2 gyda'r bwriad i un ai ddisodli'r nifer o wahanol systemau â ddefnyddir yn bresennol, neu integreiddio elfennau ohonynt er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac anghysondebau o ran y trefniadau gweinyddiaeth.

5.2 Mae staff YGC yn cofrestru prosiectau ar eu system 'sharepoint' drwy gwblhau taflen gofrestru PM1 sydd wedi ei hymgorffori i fewn i 'sharepoint'. Mae'r broses yma yn dethol rhif prosiect unigryw ac yn rhoi'r cyfle i'r unigolyn sy'n ei gwblhau i nodi agweddau o'r

prosiect megis enw'r rheolwr prosiect, os yw CDM 2015[1] yn berthnasol, rôl YGC a'r ffynhonnell i ariannu'r prosiect. Mae manylion y prosiectau hefyd yn cael eu bwydo i system KeyedIn, yn bennaf er mwyn nodi oriau â weithir gan staff a chodi anfonebau yn ogystal â system PMS[2], Asiantaeth Cefnffyrdd os mai'r Asiantaeth yw'r cleient.

5.3 Yn unol â safonau systemau rheoli rhyngwladol, mae YGC yn cynnal trefn o archwiliadau mewnol o fewn yr Adran, ac yn annibynnol o Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor. Caiff sampl o brosiectau eu harchwilio yn gyfnodol gan swyddog penodol o fewn YGC er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y diwydiant gan gynnwys elfennau cyfreithiol, amgylcheddol, iechyd a diogelwch, cytundebau a phrosesau ariannol.

5.4 Mae'r Swyddog Amgylcheddol a Sicrwydd Ansawdd yn ymgymryd â'r rôl yma o ran YGC. Mae rhaglen benodol gydag archwiliadau pob 4 mis. Mae YGC wedi ei rannu i 4 gwasanaeth gyda 5 neu 6 o dimau ynddynt. Y drefn arferol yw dethol sampl o hyd at 10 prosiect ym mhob cyfnod fel bod pob un o'r timau yn derbyn un archwiliad prosiect y flwyddyn. Adolygir y rhaglen yma yn flynyddol.

5.5 Mae'r BSI[3] yn cynnal asesiadau er mwyn adolygu'r prosesau yma o archwilio mewnol gan YGC. Mae asesiadau BSI yn edrych yn benodol ar safonau ISO 9001:2015 (Ansawdd), ISO 14001:2015 (Amgylcheddol) a ISO 45001:2018 (Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol). Mae'n ofynnol i YGC adrodd a darparu cynllun gweithredu ar unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r safonau yma. Os nad yw'r cynllun yn foddhaol neu fethiant i'w gyflawni, yna mae risg i YGC golli eu tystysgrif achrediad.

5.6 Detholwyd sampl o 9 o brosiectau YGC rhwng 2019-20 a 2020-21. Nid yw'r holl brosiectau wedi eu cwblhau eto ond gwelwyd y camau oedd wedi eu cymryd ar amser yr archwiliad. Mae system 'sharepoint' YGC yn cynnwys templed o ffolderi ar gyfer yr agweddau angenrheidiol wrth reoli prosiect, ond gwelwyd anghysondebau yn y drefn a ddilynir gan wahanol reolwyr prosiect gyda rhan helaeth o'r ffolderi yn cael eu hanwybyddu mewn rhai achosion. Mae ystod eang o feysydd yn golygu bod anghenion y gwahanol brosiectau yn amrywio'n sylweddol. Er mai bodolaeth y wybodaeth/tystiolaeth sydd yn bwysig yn hytrach na'r drefn ffeilio, gall hyn achosi trafferthion ac oedi wrth adolygu'r gwaith neu petai swyddogion eraill yn mabwysiadu'r rôl gan y rheolwr prosiect gwreiddiol. Mae canllawiau SOP-02[4] yn cael eu dilyn ar gyfer prosiectau ond mae'r amrywiaeth o ran cymhlethdod a maint y prosiectau yn golygu bod angen hyblygrwydd gan nad yw'n ymarferol i ddilyn yr un drefn ar bob prosiect. Trafodwyd hyn gyda'r Swyddog Amgylcheddol a Sicrwydd Ansawdd ac eglurodd bod hyn yn enghraifft o elfen arall y bwriedir tacluso a hwyluso drwy ddefnyddio system K2 a fydd yn cynnig system fwy dynamig ac addas i bwrpas a fydd yn lliflinio'r prosesau angenrheidiol.

[1] Construction (Design and Management) Regulations – HSE (Health and Safety Executive)
[2] Project Management Systems – Partner Authorities
[3] British Standards Institution
[4] Standard Operating Procedures – Project Management

5.7 Mae Archwilio Mewnol o'r farn bod y rheolaethau cydadfer sydd mewn lle i wirio cydymffurfiaeth â safonau rheoli prosiect BSI, â'r trefniadau arfaethedig sydd mewn llaw i gysoni trefniadau, yn golygu gellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle i gyflawni ei hamcanion. Fodd bynnag, nid oes modd rhoi sicrwydd pendant hyd nes i'r drefn newydd gael ei mabwysiadu a'i gwirio.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Swyddog Amgylcheddol a Sicrwydd Ansawdd wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Mabwysiadu system K2 a monitro cynnydd ar y trefniadau rheoli prosiect ac adnabod a gweithredu ar unrhyw rwystrau a adnabyddir yn gynnar yn y cyfnod datblygu.**